

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2016 -20

Adroddiad Blynyddol 2016-17



Pwrpas yr Adroddiad

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nododd y Cyngor y pedwar amcan y mae am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion wedi eu dewis ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth fewnol, llais a chyfranogiad aelodau o'r cyhoedd a data ar nodweddion cydraddoldeb. Yr amcanion ydi:

- Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
- Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig
- Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau.

Bwriad y ddogfen yma yw nodi rhai o bethau pwysicaf mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn Ebrill 2016 i Fawrth 2017 ym maes cydraddoldeb.

Cynllun Gweithredu

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-200

Amcan 1	
Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion Cydraddoldeb	
Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?	Beth yw'r amserlen?
1.1 Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb gan rannu'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp drwy'r Cyngor.	2016-17
1.2 Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb. (Ystyriaeth bellach i'w roi i ganfod y cyfrwng gorau)	Parhaus
1.3 Cryfhau'r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer da er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o'r budd sy'n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â'r ddyletswydd i wneud hynny.	2016-17
Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2016-17?	
<p>Er i'r gwaith o gysylltu hefo'r grwpiau penodol gychwyn yn 2016-17 nid oedd yn bosib ei orffen oherwydd bod y Swyddog perthnasol wedi bod ar absenoldeb salwch am gyfnod hir. Bydd y gwaith yn cael ei orffen yn ystod 2017-2018.</p> <p>Mae'r wybodaeth o brif ymarferion casglu barn y Cyngor eisoes ar gael ar y wefan gyhoeddus. Bydd linc i'r wybodaeth yma'n cael ei roi ar dudalen cydraddoldeb</p> <p>Mae cyfarfod cychwynnol am y Llawlyfr Ymgysylltu wedi digwydd ond, oherwydd salwch hirdymor y Swyddog perthnasol bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2017-18.</p>	

Amcan 2	
Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb	
Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?	Beth yw'r amserlen?
2.1 Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.	Parhaus
2.2 Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith.	Parhaus
Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2016-17?	
<p>Mae drafft o e-fodiwl newydd wedi ei gwblhau a bydd yr e-fodiwl yn cael ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn 2017-18.</p> <p>Mae'r gwaith o ddiweddarar'r taflenni asesiadau effaith wedi ei gychwyn ar gyfer ei ddefnyddio 2017-18.</p> <p>Mae gwybodaeth yn cael ei gasglu a'i baratoi i'w roi ar y fewnrwyd er mwyn rhoi cymorth i swyddogion ym maes cydraddoldeb.</p> <p>Rydym wedi adrodd ar 2.2 yn bwynt 1.</p>	

<p>Amcan 3</p> <p>Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.</p>	
Beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2016-20?	Beth yw'r amserlen?
3.1 Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol	2016/17 – 2017-18
3.2 Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau	2016/17 – 2017-18
3.3 Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleon i gynrychioli fel cynghorydd lleol	2016/17 – 2017-18
<p>Beth sydd wedi digwydd yn ystod 2016-17?</p>	
<p>Defnyddiwyd holiaduron i ganfod barn ar beth sy'n rhwystro pobl rhag sefyll am etholiad. Roedd yr holiaduron ar gael yn electroneg ac ar bapur. Mi wnaeth y Cyngor ddefnyddio nifer o ffyrdd i roi gwybod i bobl amdanynt.</p> <p>Ar ôl gweld beth oedd gan bobl i'w ddweud wrth ateb yr holiadur newidiwyd y safle we sy'n esbonio sut sefyll fel ymgeisydd a rhoi mwy o wybodaeth am rôl Cynghorydd.</p> <p>Defnyddwyd nifer o ffyrdd i dynnu sylw pobl at yr wybodaeth yma. Roedd y rhain yn cynnwys 2 fideo (gyda chystadleuaeth i gyd-fynd), sesiynau codi ymwybyddiaeth, posterï ayb.</p>	

Amcan 4	
Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau	
Beth mae'r Cyngor am ei wneud yn ystod 2016-20?	Beth yw'r amserlen?
4.1 Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb	Cychwyn yn Fehefin 2016
4.2 Cwblhau awdit tâl	2016/17 – 2019/20.
4.3 Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall	2016/17 – 2019/20
Beth ddigwyddodd yn ystod 2016-17?	
<p>Mae'r gwaith o gael mwy o bobl i lenwi'r bylchau yn eu gwybodaeth cydraddoldeb, neu i adael i ni wybod nad ydynt eisiau cwblhau'r wybodaeth, wedi cychwyn. Anfonwyd e-bost allan i bob gweithiwr sydd hefo cyfrifiadur yn y gwaith ac mae hynny wedi golygu fod 40% yn fwy wedi cwblhau'r ffurflen. Mae'r gwaith o wneud awdit tâl wedi cychwyn.</p>	

Ydi'r Cyngor wedi gwneud unrhyw beth arall?

Fel rydych chi wedi gweld uchod, mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud gwaith ar bedwar amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, er bod un neu ddau o bethau ychydig yn hwyr. Mi fyddwn ni'n dal i fyny hefo'r gwaith yn ystod 2017-18.

Ond, wrth gwrs, nid dyma'r unig waith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ym maes cydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn awyddus i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud. Mae ystyried anghenion gwahanol grwpiau, felly, yn rhan o waith dydd i ddydd staff y Cyngor. Dyma rai o'r pethau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn:

Ffoaduriaid

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn 20 o ffoaduriaid yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid allweddol fel Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Menai a'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w helpu i ymgartrefu yng Ngwynedd. Rhai o'r pethau sy'n cael eu gwneud yw darparu gwybodaeth mewn iaith addas, sicrhau fod gwirfoddolwyr ar gael i roi cymorth a threfnu digwyddiadau yn y Mosg ym Mangor i bobl o Ogledd Cymru.

Ysgol Hafod Lon

Mae Ysgol Hafod Lon, sy'n addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd, wedi ei hagor ym Mhenrhyndeudraeth. Mae'r ysgol yn darparu lle ar gyfer hyd at 100 o blant ac mae'n cymryd lle'r cyn Ysgol Hafod Lon sydd wedi gwasanaethu cenedlaethau o blant o'i cyn-gartref yn Y Ffôr. Mae'r ysgol newydd yn cynnwys ystafelloedd dosbarth modern gyda'r adnoddau diweddaraf, yn ogystal â phwll hydro therapi, ystafelloedd therapi, offer synhwyraidd, ac ardal chwarae awyr agored a chyfleusterau dysgu. Mae yna uned breswyl egwyl fer yno yn ogystal. Mae gardd a chaffi hefyd yn rhan o'r ysgol, gan ddarparu amgylchedd ar gyfer disgyblion hŷn i ddatblygu eu sgiliau menter a busnes.

Toiledau

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid fel Cynghorau Cymuned a Thref i geisio cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus y sir ar agor.